# Gwireddu'r cwricwlwm: safbwyntiau rhyngwladol

**Sleid 1**

Mae tystiolaeth ryngwladol yn dweud wrthym am bwysigrwydd gwneud synnwyr ymarferwyr fel rhan o wireddu'r cwricwlwm. Mae tystiolaeth yn dweud wrthym fod gwneud synnwyr yn cymryd amser – ond bod gwneud synnwyr yn magu hyder wrth greu cwricwlwm trwy ddeialog a thrwy cyd-ddealltwriaeth a ddatblygir ac a adlewyrchir dros amser.

Yn y mewnbwn hwn, rydym yn trafod rhywfaint o'r hyn y mae tystiolaeth ryngwladol yn ei ddweud wrthym am y broses o wireddu'r cwricwlwm a diwygio addysgol ac yn cysylltu hyn â rhai o brofiadau'r rhai a gymerodd ran yn y grŵp datblygu ar y cyd. Gorffennwn drwy gyflwyno rhai o'r syniadau allweddol a drafodwyd gan dri arbenigwr cwricwlwm ac asesu rhyngwladol a gafodd eu cyfweld fel rhan o Gam 2 o brosiect Camau i'r Dyfodol.

**Sleid 2**

Arweiniodd cyhoeddi Dyfodol Llwyddiannus yn 2015 at ddiwygiad radical i'r cwricwlwm yng Nghymru. Mae'r cwricwlwm newydd a ddeilliodd o argymhellion yr adolygiad hwn yn wahanol iawn i'r cwricwlwm blaenorol yng Nghymru – a ddisgrifiwyd gan Sinnema et al (2020) fel 'gweledigaeth newydd feiddgar ar gyfer y cwricwlwm, addysgu a dysgu.' Mae'n gwahodd ymarferwyr a gweithwyr addysg broffesiynol i feddwl yn wahanol iawn am ddysgu, addysgu ac asesu ac mae'n symud rôl yr athro/ymarferydd i un sy'n creu'r cwricwlwm yn hytrach na'i gyflwyno'n unig.

Fel y nodwyd gan Bradfield & Exley (2020), mae'r syniad o flaenoriaethu athrawon neu ymarferwyr fel 'gwneuthurwyr cwricwlwm' yn adlewyrchiad o dueddiadau ehangach a welwn mewn cwricwla cyfoes. Mae'r newid hwn o rywbeth a gyflwynir i rywbeth a grëwyd yn golygu nad proses o'r brig i lawr yn unig yw gwireddu'r cwricwlwm mwyach: nid yw'n wir fod y cwricwlwm yn gynnyrch gorffenedig i'w roi ar waith. Fel y nodwyd gan Sinnema et al (2020), mae fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn lle hynny yn fan cychwyn ar gyfer gwneud penderfyniadau proffesiynol mewn perthynas â'r cwricwlwm, addysgu a dysgu.

Yn yr ystyr hwn, mae fframwaith y cwricwlwm yn darparu canllawiau ar gyfer gwneud y cwricwlwm ar lefelau lleol: math o wneud cwricwlwm sy'n ailadroddol, yn ymatebol ac yn hyblyg, ac sy'n cael ei lywio gan fyfyrio ac adolygu parhaus. Gwyddom o brofiadau gwledydd eraill sydd wedi mynd trwy ddiwygiadau cwricwlaidd ac addysgol tebyg, fod symud o weithredu o'r brig i'r bôn a rôl gynyddol i athrawon ac ymarferwyr a llunwyr cwricwlwm, yn dibynnu ar ddatblygu cyd-ddealltwriaeth a gwneud synnwyr.

**Sleid 3**

Mae un enghraifft o ble mae canllawiau cwricwlwm craidd wedi cael eu rhoi ar waith trwy ddatblygu cwricwlwm lleol i'w gweld gyda Norwy. Er bod gan Norwy fath gwahanol o Gwricwlwm i Gymru, mae'n dal i roi sylw blaenllaw i rôl athrawon wrth ddatblygu'r cwricwlwm o'r gwaelod i fyny.

Fel mae Rød a Bæck yn nodi, mae'r cwricwlwm Norwyaidd yn cael ei addasu gan athrawon i gyd-destunau, anghenion a blaenoriaethau lleol sy'n caniatáu amrywiadau daearyddol a chyd-destunol rhanbarthol. Mae athrawon felly'n chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu cwricwla lleol: mae ysgolion ac athrawon yn dewis y cynnwys, y deunyddiau addysgu a'r gweithgareddau dysgu, o fewn fframwaith cwricwlwm cenedlaethol cyffredinol. Fel y mae Rød a Bæck yn ei drafod, gall cyflwyno cynnwys ar lefelau lleol wneud addysg yn fwy ystyrlon a pherthnasol i ddisgyblion, ond mae'n dibynnu ar ddealltwriaeth a rennir o'r cwricwlwm.

Er mwyn helpu i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth a llunio cwricwlwm, rydym hefyd yn dod o hyd i enghreifftiau o wledydd yn defnyddio dulliau cyfranogol tebyg i rai Cymru. Yn achos diwygio cwricwlaidd yn y Ffindir, ysgrifennodd Soini et al (2021): 'Mae diwygiadau cwricwlwm y Ffindir yn cael eu cyflawni drwy ddull cyfranogol, gan ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid gwahanol o haenau gwahanol y system ysgolion i adeiladu'r cwricwlwm craidd newydd ar y cyd.'

Gall y broses o wneud synnwyr a datblygu cyd-ddealltwriaeth, er ei bod yn angenrheidiol ar gyfer unrhyw ddiwygio cwricwlaidd cymhleth, gymryd amser maith ac weithiau gall deimlo'n heriol i'r rhai sy'n cymryd rhan.

**Sleid 4**

Fel y mae Haapaniemi yn ei arsylwi am ddiwygio'r cwricwlwm yn y Ffindir, mae'r broses o ddehongli diwygio'r cwricwlwm mewn ysgol yn broses gymhleth. I'r ymarferwyr hynny, a gweithwyr addysg broffesiynol eraill yn y system, mae dimensiwn emosiynol i ddiwygio a all, fel y cydnabyddir gan Antilla et al, gynnwys cymysgedd o deimladau cadarnhaol a negyddol ar wahanol adegau ac mewn ffyrdd gwahanol.

Gall pethau deimlo'n fwy heriol weithiau, y mwyaf radical yw'r newid yn y cwricwlwm ac ymarfer. Rhan o'r rheswm y gall hyn weithiau deimlo'n heriol yw ei bod yn bosibl y bydd yn rhaid i ymarferwyr ailfeddwl ac ail-werthuso eu hymarfer eu hunain, eu ffyrdd eu hunain o weithio, eu hegwyddorion personol a phroffesiynol a'u hunaniaeth broffesiynol, yn sgil y diwygio. Yn ei gyfweliad gyda phrosiect Camau i'r Dyfodol, mae Chris DeLuca, yn trafod y syniad o ymarferwyr yn cyd-drafod a dehongli beth yw fframwaith newydd neu ddiwygiad, sut mae'n berthnasol i arferion presennol a beth fydd angen iddynt ei newid. Mae'n dadlau bod hyn yn cymryd amser i ymgodymu ag ef a bod angen amser a chymuned i'w ddatrys.

Mae ailfeddwl a gweithio drwy heriau yn rhan angenrheidiol o symud ymlaen â diwygio'r cwricwlwm.

**Sleid 5**

Roedd hyn yn rhywbeth a brofwyd gan aelodau'r grŵp datblygu ar y cyd. Fel y trafodwyd yn flaenorol, roedd yn ddefnyddiol iddynt feddwl am heriau fel ‘clymau’ i’w datrys er mwyn caniatáu i’r meddwl symud ymlaen. Roedd datrys y clymau hyn yn golygu myfyrio beirniadol a thrafodaeth, yn ogystal â dysgu proffesiynol ac ymgysylltu â pholisi ac ymchwil. Roedd hyd yn oed datrys gwahanol agweddau o’r her yn rhannol yn galluogi cyfranogwyr i symud ymlaen yn eu meddwl a'u hymarfer eu hunain.

Yn ystod cam 2, daeth yn amlwg bod y ffordd yr oedd cyfranogwyr yn mynd ati ac yn meddwl am heriau yn bwysig – a bod heriau weithiau hyd yn oed yn tanio chwilfrydedd yn y broses o ailfeddwl ac ail-werthuso. Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod y gallai’r broses hon arwain at symud y tu allan i’w parthau cysurus a gwelodd rhai bod y syniad o eistedd yn anghyfforddus yn ddefnyddiol ar gyfer trafodaeth ac i ddyfnhau eu dealltwriaeth eu hunain. Dywedodd un cyfranogwr: ‘peidiwch â chynhyrchu’r un peth. Peidiwch â gwneud yr hyn rydyn ni bob amser wedi'i wneud ... pan fyddwch chi'n dal y syniadau gwrthdaro hynny yn eich pen, ewch amdani ... Ac roedd yr angerdd hwn ynof, chi'n gwybod, gadewch i ni geisio rhywbeth'.

Roedd y broses o wneud synnwyr a datod clymau yn cefnogi cyfranogwyr yn y grŵp datblygu ar y cyd i gymryd rhan yn yr hyn y cyfeiriwyd ato gan un cyfranogwr fel ‘y meddwl caled’ i helpu i fagu hyder.

**Sleid 6**

Wrth fyfyrio ar y broses datblygu ar y cyd, dywedodd un cyfranogwr:

‘Ac mae’n debyg bod rhai o’r pethau rydyn ni wedi’u gwneud o ran y sgyrsiau a’r mewnbynnau rydyn ni wedi’u cael ar hyd y ffordd, wedi rhoi ychydig o sylfaen ymchwil i ni i ddweud, wyddoch chi beth? Nid ni yw'r unig rai sy'n cael trafferth gyda hyn. Ac mae hynny'n iawn. Ac nid yw'r ffaith nad oes gennych ateb pendant o reidrwydd yn golygu eich bod yn cael unrhyw beth o'i le. Dwi'n meddwl mai dyna'r peth rydyn ni'n ei glywed pobl yn ei ddweud yn aml, “Dydw i ddim eisiau ei gael yn anghywir”, ac mae'n debyg bod hynny'n dod yn ôl at y darn gofal ymarferol hwnnw, ein bod ni eisiau rhoi hyder i'r proffesiwn ei bod hi'n iawn gwneud y meddwl caled a'r dysgu - mae hynny'n werthfawr.'

**Sleid 7**

Wrth symud ymlaen, mae’r elfen archwilio bellach yn yr adran hon yn cynnwys y cyfweliadau llawn ag arbenigwyr cwricwlwm ac asesu rhyngwladol y cyfeiriwn atynt ar wahanol adegau yn y deunyddiau hyn. Yn ystod y cyfarfodydd datblygu ar y cyd, soniodd y cyfranogwyr fod ganddynt ddiddordeb mewn diwygio’r cwricwlwm mewn gwledydd eraill, yn enwedig y rhai lle’r oedd athrawon yn creu cwricwlwm yn lleol. Felly gofynnodd tîm y prosiect i Jenny Poskitt, Chris DeLuca a Kari Smith siarad â ni am y cwricwlwm ac asesu yn eu gwledydd eu hunain a sut y cefnogwyd diwygio yn eu systemau addysg - a sut y gallai’r

profiadau yn y gwledydd hyn gefnogi meddwl am wireddu'r cwricwlwm ar gyfer ymarferwyr eraill.

Mae Chris de Luca yn trafod y newid i bolisi asesu yn Ontario a gyflwynwyd yn 2010. Mae Jenny Poskitt yn trafod cwricwlwm Seland Newydd a gyflwynwyd yn 2007 ac sy'n cael ei adnewyddu ar hyn o bryd. Mae Kari Smith yn siarad am y cwricwlwm ac asesu yn Norwy a sut mae ysgolion yn gwireddu'r rhain yn ymarferol.

I gloi, mae rhai pwyntiau allweddol am brosesau diwygio addysg y mae'r cyfweliadau'n eu hamlygu.

Mae Chris yn sôn am bwysigrwydd cydnabod yn Ontario nad yw dysgu proffesiynol am ddiwygiadau newydd yn llinol: roedd adeiladu cymunedau ymarfer i gefnogi cyd-ddealltwriaeth a gweledigaeth a rennir o ddiwygio wedi helpu gyda dysgu proffesiynol a gwireddu yn y dalaith. Trafododd Jenny natur ailadroddus newid cwricwlwm a phwysigrwydd cyfathrebu a chydweithio i gefnogi newid cwricwlwm yn Seland Newydd: 'cael sgyrsiau a rhannu, gweld beth mae eraill yn ei wneud'.

Mae Kari yn siarad o brofiad yn Norwy am sut mae angen amser i unrhyw ddiwygiad 'setlo'. Mae hi hefyd yn sôn am bwysigrwydd ymchwil gweithredol i gefnogi ymarferwyr i wneud eu newid eu hunain, gan gydweithio ag ymarferwyr eraill a chyda dysgwyr i archwilio ffyrdd newydd o addysgu a dysgu yn eu hystafelloedd dosbarth eu hunain. (Kari Smith)